

SDR 64/2016

1 Mehefin 2016

Gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGGCC ar 31 Mawrth 2016

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) sy'n gyfrifol am reoleiddio ac arolygu gofal, gofal plant a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys meithrinfeydd, cartrefi i bobl hŷn ac awdurdodau lleol, i sicrhau eu bod yn ddiogel i'r bobl sy'n eu defnyddio.


Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno canlyniadau allweddol ar gyfer Cymru ar 31 Mawrth 2016 (diwedd chwarter 4, 2015-16) o ran niferoedd y gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGGCC, gan gynnwys Gwasanaethau Gofal i Oedolion, Gwasanaethau i Blant a Gofal Dydd i Blant, ac mae'n cynnwys cymariaethau â chanlyniadau mewn blynnyddoedd a fu.

Mae gan y wybodaeth a gyflwynir yn y datganiad hwn nifer o ddefnyddwyr allweddol, gan gynnwys gweinidogion Llywodraeth Cymru, awdurdodau unedol llywodraeth leol, myfyrwyr, gweithwyr academiaidd a phrifysgolion, dinasyddion unigol a chwmnïau preifat. Defnyddir y wybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd, fel cynghori gweinidogion, ar gyfer cymharu a meincnodi awdurdodau unedol, ac i roi gwybodaeth i gomisiynwyr gwasanaethau gofal. Caiff termau a ddefnyddir yn y datganiad hwn eu hesbonio ymhellach yn yr [Eirfa](#)


Canlyniadau allweddol

- Mae nifer y gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru ar unrhyw un adeg fwy neu lai yr un fath, er bod newidiadau i gofrestrïadau yn digwydd trwy gydol y flwyddyn.
- Roedd 6,209 o wasanaethau â 108,699 o leoedd wedi'u cofrestru gydag AGGCC ar 31 Mawrth, gostyngiad o 54 o wasanaethau i gyd a chynnydd o 2,749 o leoedd ers yr un chwarter y flwyddyn cynt (Tabl 1).
- Roedd 1,582 o wasanaethau i oedolion â 25,642 o leoedd gwasanaeth wedi'u cofrestru gydag AGGCC ar 31 Mawrth, gostyngiad o 12 o wasanaethau a 549 o leoedd ers yr un chwarter y flwyddyn cynt (Tabl 2).
- Roedd 241 o wasanaethau i blant a 2,217 o leoedd wedi'u cofrestru gydag AGGCC ar 31 Mawrth, cynnydd o 11 o wasanaethau a 39 o leoedd ers yr un chwarter y flwyddyn cynt (Tabl 3).
- Roedd 4,386 o wasanaethau ac 80,840 o leoedd gofal dydd i blant wedi'u cofrestru gydag AGGCC ar 31 Mawrth, gostyngiad o 53 o wasanaethau a chynnydd o 3,259 o leoedd (twf o fwy na phedwar y cant) ers yr un chwarter y flwyddyn cynt (Table 4).

Siart 1



Siart 2



Dadansoddwr: Claire Davies

Ffôn: 0300 062 8607

E-bost: CSSIW_information@wales.gsi.gov.uk

Diweddariad Nesaf: Mai 2017 (rhagarweiniol)

Adran 1: Gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGGCC

Enw cyfunol ar sefydliad neu unigolion a reoleiddir gan AGGCC yw gwasanaeth.

Mae rhai gwasanaethau wedi'u cofrestru i ofalu am uchafswm o bobl – dyma nifer y lleoedd cofrestredig.

Nid yw lleoedd wedi'u cofrestru mewn gofal cartref, asiantaethau nyrsys, cynlluniau lleoliadau oedolion a'r gwasanaethau hynny nad yw AGGCC yn eu cofrestru.

Tabl 1: Cyfanswm y gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan AGGCC

	31 Mawrth 2013	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2016
Gwasanaethau i Oedolion				
Gwasanaethau	1,597	1,603	1,594	1,582
Lleoedd	26,460	26,240	26,191	25,642
Gwasanaethau i Blant				
Gwasanaethau	222	225	230	241
Lleoedd	2,161	2,176	2,178	2,217
Gofal Dydd i Blant				
Gwasanaethau	4,296	4,446	4,439	4,386
Lleoedd	75,944	76,590	77,581	80,840
Cyfanswm				
Gwasanaethau	6,115	6,274	6,263	6,209
Lleoedd	104,565	105,006	105,950	108,699

Ffynhonnell: System cymorth busnes AGGCC

Bu mân ostyngiad i gyfanswm y gwasanaethau ers yr un chwarter y llynedd (Mawrth 2015) a bu cynnydd i gyfanswm y lleoedd (oddeutu tri y cant). Yn gyffredinol, prin fu'r newid i nifer y gwasanaethau a reoleiddir gan AGGCC dros y tair blynedd flaenorol, er y bu rhai achosion o gynnydd sylweddol i nifer y lleoedd gofal dydd i blant, a drafodir yn adran pedwar y datganiad hwn.

Mae'r tablau canlynol yn y datganiad hwn yn cynnig dadansoddiad cymharol o bob sector gwasanaeth yn nhabl 1 uchod.

Mae rhagor o wybodaeth yn dangos data ar gyfer awdurdodau lleol a mathau o wasanaeth wedi'i chyhoeddi ar offeryn rhannu ystadegau Llywodraeth Cymru StatsCymru:
<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue>

Adran 2: Gwasanaethau i oedolion

Mae AGGCC yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio cartrefi preswyl a nyrsio ar gyfer oedolion o bob oed, ac yn rheoleiddio'r asiantaethau a'r sefydliadau sy'n darparu gofal a chymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain ac yn y gymuned.

Cynlluniau a weithredir yn lleol yw cynlluniau lleoliadau oedolion sy'n galluogi hyd at ddau o bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth i fyw yn rhan o deulu. Gall lleoliadau fod yn barhaol, yn fyrdymor, ac yn gyfnodau o ofal seibiant.

Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau nyrsio preifat yn y gymuned ac sydd hefyd yn cynorthwyo pobl â'u gofal personol yw asiantaethau nyrsys.

Tabl 2: Nifer y gwasanaethau a lleoedd i oedolion a reoleiddir gan AGGCC

	31 Mawrth 2013	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2016
Lleoliadau Oedolion				
gwasanaethau	12	11	11	9
Lleoedd ^(a)	.	.	.	.
Preswyl i Oedolion				
<i>Cartrefi Gofal (Oedolion Hŷn)</i>				
gwasanaethau	684	675	670	653
Lleoedd	23,050	22,816	22,713	22,092
<i>Cartrefi Gofal (Oedolion Iau)</i>				
gwasanaethau	459	457	444	453
Lleoedd	3,410	3,424	3,478	3,550
Gofal Cartref				
gwasanaethau	409	422	431	426
Lleoedd ^(a)	.	.	.	.
Asiantaethau Nyrsys				
gwasanaethau	33	38	38	41
Lleoedd ^(a)	.	.	.	.
Cyfanswm				
gwasanaethau	1,597	1,603	1,594	1,582
Lleoedd	26,460	26,240	26,191	25,642

Ffynhonnell: System cymorth busnes AGGCC

(a) Nid yw lleoedd wedi'u cofrestru mewn gofal cartref, asiantaethau nyrsys, cynlluniau lleoliadau i oedolion na'r gwasanaethau hynny nad yw AGGCC yn eu cofrestru.

Mae nifer y gwasanaethau a lleoedd i oedolion yn dangos tuedd ostyngol ar gyfer y tair blynedd diwethaf, a chafwyd gostyngiad mewn cartrefi gofal preswyl i oedolion a mân ostyngiad mewn gwasanaethau gofal cartref. Bu gostyngiad o dri y cant i gyfanswm y lleoedd sydd ar gael ym mhob gwasanaeth i oedolion ers mis Mawrth 2013, er bod hyn yn cael ei ategu gan fân gynnydd i nifer yr asiantaethau nyrsys. Mae'r newidiadau hyn wedi digwydd mewn amgylchedd lle ceir poblogaeth gynyddol hŷn (65 oed a hŷn) ynghyd â phwyslais cynyddol ar ddarparu gofal a chymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain ac yn y gymuned.

Adran 3: Gwasanaethau i blant a reoleiddir gan AGGCC

Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o wasanaethau o gartrefi gofal traddodiadol i blant sy'n derbyn gofal, lleoliadau arbenigol am hyd at 52 wythnos i wasanaethau seibiant ar gyfer plant ag amrywiaeth o anableddau. Mae AGGCC hefyd yn gyfrifol am arolygu trefniadau lles ar gyfer plant mewn ysgolion preswyl arbenigol.

Tabl 3a: Nifer y gwasanaethau a lleoedd i blant a reoleiddir gan AGGCC 

	31 Mawrth 2013	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2016
Preswyl i Blant				
Gwasanaethau	125	129	135	144
Lleoedd	578	595	597	637
Ysgolion Arbennig Preswyl				
Gwasanaethau	11	11	11	12
Lleoedd	238	238	238	238
Cyfanswm				
Gwasanaethau	136	140	146	156
Lleoedd	816	833	835	875

Ffynhonnell: System cymorth busnes AGGCC

Bu cynnydd o naw o wasanaethau preswyl i blant a mân gynnydd i leoedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a bu cynnydd o un gwasanaeth o ran ysgolion arbennig preswyl yn ystod yr un cyfnod.

Adran 3b: Gwasanaethau i blant a arolygir gan AGGCC

Gwasanaethau a lleoedd a reoleiddir gan yr Awdurdod Lleol ond a arolygir gan AGGCC yw'r rhain.

Gall plant dderbyn gofal gan ofalwyr maeth sy'n gofalu amdanynt yn eu cartrefi am gyfnodau byr o amser neu'n hirdymor. Mae AGGCC yn gyfrifol am arolygu asiantaethau ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y gall y gwasanaethau hyn ddiwallu anghenion plant a'u bod yn cael eu diogelu rhag niwed. Caiff bron i hanner y gwasanaethau maethu sydd wedi'u cofrestru eu rhedeg gan awdurdodau lleol.

Mae AGGCC yn arolygu gwasanaethau mabwysiadu a ddarperir gan awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol, ond nid yw'n eu cofrestru. Maent yn darparu gwasanaethau sy'n cynnwys recriwtio, asesu a chymeradwyo oedolion sy'n dymuno mabwysiadu plentyn yn ogystal â chymorth i ddarpar fabwysiadwyr a phlant, gan gynnwys brodyr a chwiorydd.

Mae AGGCC yn gyfrifol am arolygu trefniadau lles ar gyfer plant sy'n preswyl mewn ysgolion preswyl a cholegau addysg bellach yng Nghymru. Estyn sy'n gyfrifol am arolygu'r ddarpariaeth addysg.

Tabl 3b: Nifer y gwasanaethau i blant nad ydynt wedi'u cofrestru ag AGGCC ond a arolygir ganddi

	31 Mawrth 2013	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2016
Gwasanaethau Maethu				
Gwasanaethau	49	50	48	49
Lleoedd	.	.	.	.
Gwasanaethau Mabwysiadu				
Gwasanaethau	23	23	24	22
Lleoedd	.	.	.	.
Ysgolion Preswyl				
Gwasanaethau	11	9	10	11
Lleoedd	1,175	1,173	1,341	1,341
Colegau Addysg Bellach				
Gwasanaethau	3	3	2	3
Lleoedd	170	170	2	1
Cyfanswm				
Gwasanaethau	86	85	84	85
Lleoedd	1,345	1,343	1,343	1,342

Ffynhonnell: System cymorth busnes AGGCC

Mae nifer y gwasanaethau a lleoedd a ddarperir gan Wasanaethau Maethu, Gwasanaethau Mabwysiadu, Ysgolion Preswyl a Cholegau Addysg Bellach wedi aros fwy neu lai yr un fath dros y tair blynedd diwethaf.

Adran 4: Gofal dydd i blant ^(a)

O 1 Ebrill 2016 ymlaen, cafodd y cyfyngiad oedran ar gyfer cofrestru gofal plant a darpariaeth chwarae ei ymestyn o wyth i 12 mlwydd oed. Yn union cyn y dyddiad hwn roedd gennym drefniant a oedd yn caniatáu i wasanaethau a lleoedd oedd wedi eu cofnodi ar system cymorth busnes AGGCC ail gofrestru'n gynnar, gan arwain at gynnydd yn y lleoedd ar gyfer gofal dydd i blant. Rydym yn cofrestru ac yn arolygu gofal dydd i blant o dan 12 mlwydd oed, gan gynnwys gwarchodwyr plant, meithrinfeydd a chlybiau ar ôl ysgol, yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Rheoliadau (2010).

Tabl 4: Nifer y gwasanaethau a lleoedd gofal dydd i blant a reoleiddir gan AGGCC ^(a)

	31 Mawrth 2013	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2016
Gwarchodwyr Plant				
Gwasanaethau	2,289	2,456	2,437	2,416
Lleoedd	11,862	12,739	12,720	15,552
Gofal Dydd Llawn				
Gwasanaethau	626	648	653	677
Lleoedd	26,318	27,023	27,505	28,622
Gofal Dydd Sesiynol				
Gwasanaethau	772	777	785	764
Lleoedd	17,240	17,351	17,678	17,211
Gofal y Tu Allan i'r Ysgol				
Gwasanaethau	479	474	472	445
Lleoedd	16,547	16,747	16,808	16,518
Cyfleusterau Crèche				
Gwasanaethau	42	33	33	28
Lleoedd	749	643	683	589
Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored				
Gwasanaethau	88	58	59	56
Lleoedd	3,228	2,087	2,187	2,348
Cyfanswm				
Gwasanaethau	4,296	4,446	4,439	4,386
Lleoedd	75,944	76,590	77,581	80,840

Ffynhonnell: System cymorth busnes AGGCC

(a) Gwasanaethau ar gyfer plant iau na 12 mlwydd oed yw'r rhain

O ganlyniad i'r cynnydd i'r terfyn oedran ar gyfer cofrestru gofal plant a chwarae o 8 i 12 mlwydd oed, gellir gweld y newid mwyaf arwyddocaol dros y tair blynedd diwethaf yn y cynnydd i nifer y lleoedd gofal dydd i blant sydd ar gael erbyn hyn.

O edrych yn fwy manwl:

- Bu gostyngiad o 21 o wasanaethau gwarchodwyr plant ers mis Mawrth 2015, a chynnydd o 24 o wasanaethau gofal dydd llawn. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd ategol o 2,832 o leoedd gwarchodwyr plant a chynnydd o 1,117 o leoedd gofal dydd llawn.
- Bu gostyngiadau i nifer y gwasanaethau a lleoedd gofal dydd sesiynol, gofal y tu allan i'r ysgol a crèche ers mis Mawrth 2015 – collwyd cyfanswm o 53 o wasanaethau a 791 o leoedd,

yn eu trefn. Hefyd, collwyd tri gwasanaeth ar gyfer darpariaeth chwarae mynediad agored, ond cafodd cynnydd o 161 o leoedd.

- Tros gyfnod o dair blynedd ers mis Mawrth 2013, bu cynnydd o ddau y cant i nifer y gwasanaethau gofal dydd i blant a chynnydd o chwech y cant i nifer y lleoedd.

Mae ffigurau'n awgrymu bod "Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant" i gynyddu nifer y trefniadau gofal plant fforddiadwy yn dylanwadu ar y farchnad gofal plant ar gyfer lleoliadau nas cynhelir.

Geirfa

Lleoedd	Mae rhai gwasanaethau wedi'u cofrestru i ddarparu gofal i uchafswm o bobl – nifer y lleoedd cofrestredig. Ni chaiff lleoedd eu cofrestru mewn gofal cartref, asiantaethau nyrsys, cynlluniau lleoliadau oedolion na'r gwasanaethau hynny nad yw AGGCC yn eu cofrestru (gweler "Cofrestru").
Darparwr	Sefydliad neu unigolyn sy'n darparu gwasanaeth gofal cymdeithasol neu flynyddoedd cynnar a reoleiddir.
Cofrestru	Mae'n rhaid i fwyafrif y gwasanaethau sy'n darparu gofal i bobl gofrestru gydag AGGCC cyn y gallant weithredu. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n dymuno rhedeg gwasanaethau wneud cais i gofrestru gydag AGGCC, sy'n cynnwys cyfweiliadau ac archwiliadau ymweliad safle. Dim ond gwasanaethau sy'n dangos eu bod yn addas i redeg y caniateir iddynt gael eu cofrestru. Mae gwasanaethau gofal y mae'n rhaid iddynt gofrestru yn cynnwys: Cartrefi gofal i oedolion hŷn ac iau, asiantaethau gofal cartref, cartrefi plant, asiantaethau maethu sector cyhoeddus ac annibynnol, asiantaethau mabwysiadu sector cyhoeddus a gwirfoddol, gwarchodwyr plant a chyfleusterau crèche. Sylwer nad yw asiantaethau maethu awdurdod lleol, asiantaethau mabwysiadu awdurdod lleol, ysgolion preswyl, ysgolion arbennig preswyl a cholegau addysg bellach yn cofrestru gydag AGGCC, ond eu bod yn cael eu rheoleiddio gan AGGCC (gweler 'Rheoleiddio').
Rheoleiddio	Mae rheoleiddio gwasanaethau gofal yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau gan AGGCC i wirio bod gwasanaethau gofal yn ddiogel ac i annog gwelliant. Mae rheoleiddio'n cynnwys: Cofrestru – penderfynu pwy all ddarparu gwasanaethau; Arolygu – arolygu gwasanaethau a chyhoeddi adroddiadau; a Gorfodi – cymryd camau gorfodi, gan gynnwys cyhoeddi hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfriad, diddymu cofrestriad gwasanaeth, a chymryd camau erlyn troseddol. Nid yw AGGCC yn ymchwilio i gwynion, ond mae'n cymryd camau dilynol yn sgil pryderon, trwy gynnal arolygiad o'r gwasanaeth fel rheol.
Rheoliadau	Gofynion cyfreithiol ar gyfer rhedeg gwasanaethau yw rheoliadau, a bennir gan Gynlluniad Cenedlaethol Cymru, ac a orfodir gan AGGCC ar ran Gweinidogion Cymru.
Gwasanaethau	Enw cyfunol ar sefydliad neu unigolion a reoleiddir gan AGGCC yw hwn.

Gofal dydd i blant	Yn cynnwys y gwasanaethau canlynol ar gyfer plant iau na 12 mlwydd oed: Gofal Dydd Llawn Gwarchodwyr Plant Gofal y Tu Allan i'r Ysgol Gofal Dydd Sesiynol Cyfleusterau Crèche Mynediad Agored
Gwasanaethau i blant	Yn cynnwys y gwasanaethau canlynol: Cartrefi Plant Canolfannau Teuluol Preswyl Asiantaethau maethu sector cyhoeddus ac annibynnol Asiantaethau mabwysiadu sector cyhoeddus a gwirfoddol Ysgolion preswyl ar gyfer myfyrwyr iau na 18 oed Ysgolion arbennig preswyl ar gyfer myfyrwyr iau na 18 oed Colegau addysg bellach ar gyfer myfyrwyr iau na 18 oed Unedau diogel (wedi'u cynnwys mewn ffigurau ar gyfer cartrefi plant oherwydd niferoedd bach)
Gwasanaethau i oedolion	Yn cynnwys y gwasanaethau canlynol: Cartrefi Gofal i Oedolion Hŷn (65 mlwydd oed a hŷn) Cartrefi Gofal i Oedolion Iau (iau na 65 oed) Cynlluniau Lleoliadau Oedolion Asiantaethau Gofal Cartref Asiantaethau Nyrsys

Newidiadau i'r datganiad hwn

Mae AGGCC, mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, wedi adolygu'r cyhoeddiad hwn fel y gallwn adlewyrchu negeseuon yn ymwneud â'r newidiadau i ddarpariaeth y farchnad yn well. Mae newidiadau a wnaed yn y cyhoeddiad hwn fel a ganlyn:

1. Ychwanegwyd gwybodaeth gyd-destunol yn holl adrannau'r datganiad.
2. Newidiwyd teitl y datganiad i 'Gwasanaethau a lleoedd gofal a reoleiddir gan AGGCC ar 31 Mawrth 2016' i fod yn fwy eglur am yr hyn y mae'r datganiad yn ei drafod.
3. Newidiwyd y datganiad o dri misol i flynyddol ar ddiwedd y flwyddyn adrodd, h.y. 31 Mawrth a chyhoeddi tua diwedd mis Mai. Y prif reswm am newid i drefniant blynyddol yw mai prin iawn yw'r newid i'r data yn dri misol.

Ein nod yw sicrhau bod defnyddwyr ein hystadegau yn parhau i gael eu hymgyngori, ac rydym yn eich gwahodd i anfon eich sylwadau ar unrhyw newidiadau – ac ar y cyhoeddiad yn gyffredinol – i: cssiw_information@wales.gsi.gov.uk

Gwybodaeth Ansawdd Allweddol

1. Cefndir

AGGCC yw rheoleiddiwr gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, o warchodwyr plant a meithrinfeydd i gartrefi i bobl hŷn, a'i nod yw:

- Darparu sicrwydd annibynnol am ansawdd ac argaeledd gofal cymdeithasol yng Nghymru
- Diogelu oedolion a phlant, gan wneud yn siŵr bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn
- Gwella gofal trwy annog a hybu gwelliannau i ddiogelwch, ansawdd ac argaeledd gwasanaethau gofal cymdeithasol
- Hysbysu polisi a safonau a darparu cyngor proffesiynol annibynnol i'r bobl sy'n datblygu polisi, y cyhoedd, a'r sector gofal cymdeithasol.

Mae AGGCC yn annog gwelliant gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol trwy:

- reoleiddio
- arolygu ac adolygu
- darparu cyngor proffesiynol i Weinidogion a llunwyr polisi.

2. Ffynhonnell yr ystadegau

Daw'r wybodaeth yn y ddogfen friffio hon o'r system weinyddol a ddefnyddir gan AGGCC i gofrestru a rheoleiddio gwasanaethau gofal. Mae'r wybodaeth yn ymwneud â gwasanaethau a reoleiddir yn unig. Mae AGGCC wrthi'n adolygu'r broses a'r systemau rheoleiddio.

3. Amseru

Caiff system weinyddol AGGCC ei diweddarau'n barhaus yn rhan o waith rheoleiddio'r arolygiaeth o ddydd i ddydd. Mae cyhoeddi'n ymwneud â chipolygon o'r system a gymerir bob tri mis trwy gydol y flwyddyn ariannol. Felly, mae gwybodaeth gyhoeddedig ar gael ar gyfer diwedd:

- Chwarter 1 (Ebrill i Fehefin), sef 30 Mehefin
- Chwarter 2 (Gorffennaf i Fedi), sef 31 Medi
- Chwarter 3 (Hydref i Ragfyr), sef 31 Rhagfyr
- Chwarter 4 (Ionawr i Fawrth), sef 31 Mawrth

4. Ansawdd data

Mae cofrestru, dadgofrestru a newidiadau i gofrestriadau yn digwydd trwy gydol y flwyddyn, er, yn gyffredinol, mae nifer y gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru ar unrhyw un adeg yn weddol gyson.

5. Symbolau

Defnyddir y nodiant canlynol yn y tablau hyn:

- . = nid yw'r eitem data'n berthnasol
- .. = nid yw'r eitem data ar gael

- = nid yw'r eitem data yn union sero, ond fe'i hamcangyfrifir fel sero neu lai na hanner y digid terfynol a ddangosir
- * = nid yw'r eitem data yn ddadlennol neu nid yw'n ddigon cadarn i'w chyhoeddi

6. Datgelu a thalgrynnu

Nid yw'r wybodaeth yn y tablau hyn na'r tablau atodol ar StatsCymru wedi cael ei thalgrynnu. Mae hyn oherwydd y gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon yng Nghyfeiriadur AGGCC o Wasanaethau a Reoleiddir hefyd (gweler eitem 9).

7. Polisi diwygiadau

Gan fod data'n cael eu cymryd o system weinyddol ac yn cynnig darlun o weithgarwch a gofnodwyd ar ddyddiad penodol, ni fydd data'n cael eu diwygio bob tri mis. Efallai na fydd y darlun hwn yn fanwl gywir gan efallai na fydd gwybodaeth yn cael ei chofnodi ar y system tan yn ddiweddarach (h.y. y chwarter nesaf) a gallai'r chwarter nesaf gynnwys rhywfaint o ddata o'r chwarter blaenorol a gofnodwyd yn 'hwyr'. Fodd bynnag, mae nifer yr achosion dan sylw yn debygol o fod yn fach.

8. Defnyddiau ystadegau

Rydym o'r farn mai'r canlynol yw'r defnyddwyr allweddol o wybodaeth am wasanaethau a reoleiddir yng Nghymru (ac eithrio defnydd craidd AGGCC):

- Gweinidogion Llywodraeth Cymru
- Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Aelodau Cynulliad a'r Gwasanaeth Ymchwil Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Awdurdodau unedol llywodraeth leol (aelodau etholedig a swyddogion)
- Myfyrwyr, gweithwyr academiaidd a phrifysgolion
- Rhannau eraill o Lywodraeth Cymru
- Adrannau llywodraeth eraill
- Dinasyddion unigol a chwmnïau preifat.

Ac eithrio defnydd craidd AGGCC o'r wybodaeth, defnyddir yr ystadegau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae rhai engreifftiau o'r rhain yn cynnwys:

- Cyngor i Weinidogion
- Cymariaethau a meincnodi awdurdodau unedol
- I hysbysu trafodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a thu hwnt
- I ddarparu gwybodaeth i gomisiynwyr gwasanaethau gofal

9. Cyhoeddiadau cysylltiedig

- Cyhoeddir gwybodaeth fwy manwl bob tri mis i ategu'r datganiad hwn ar offeryn rhannu gwybodaeth Llywodraeth Cymru, StatsCymru. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad pellach fesul math o wasanaeth ac awdurdod lleol:

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue>

- Mae AGGCC yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am weithgareddau mewn gwasanaethau a reoleiddir yn flynyddol yn Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd. Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gael drwy'r ddolen ganlynol:
<http://cssiw.org.uk/our-reports/annual-reports/?lang=en>
- Mae rhestrau o wasanaethau a reoleiddir a'u hadroddiadau arolygu diweddaraf ar gael yn y Cyfeiriadur o Wasanaethau a Reoleiddir:
<http://cssiw.org.uk/our-reports/regulated-reports/?lang=en>

10. Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan AGGCC:

www.aggcc.org.uk

Gwybodaeth gyswilt

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y Datganiad Ystadegol hwn, cysylltwch â:

Matt Wright

AGGCC

Parc Busnes Rhyd-y-car,

Merthyr Tudful,

CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8156

E-bost: cssiw_information@wales.gsi.gov.uk